19 Mai 2020

Annwyl gydweithwyr,

Rydym yn gwybod bod canolfannau yn brysur yn gweithio drwy brosesau i gynhyrchu graddau asesu teg a chywir ar gyfer pob dysgwr a threfn restrol ar gyfer pob cymhwyster. Deallwn fod hon yn broses nad oeddech wedi cynllunio ar ei chyfer ac nad yw'n syml mewn sawl achos, ac rydym yn diolch i chi am eich dyfalbarhad a'ch proffesiynoldeb wrth sefydlu mecanweithiau i ganiatáu i'r data yma gael ei gynhyrchu.

Yn ogystal â'r diweddariadau diweddar a rannwyd gan CBAC ar gynhyrchu'r graddau, gan gynnwys cyngor pwnc-benodol, bydd cyfarwyddyd manylach ar y broses o gyflwyno'r data ei hun yn dilyn gan CBAC yn fuan.

Yn y cyfamser, roeddem am rannu fersiwn wedi'i ddiweddaru o'n Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau. Rydym wedi ychwanegu dau baragraff byr ychwanegol at y ddogfen. Dyma nhw:

1. *"Gan y gofynnir i ganolfannau gyflwyno data a dynnwyd o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu ffurfiannol arferol dros y flwyddyn neu flynyddoedd academaidd, bydd y data wedi bod yn destun polisïau a gweithdrefnau arferol y ganolfan, a fydd yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd wedi'i gwreiddio ynddynt. (https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149) Fodd bynnag, dylai Canolfannau hefyd ystyried addasiadau rhesymol eraill y dylid eu cynnwys yn eu dyfarniad ar Raddau Asesu Canolfannau."Mae dyletswyddau sy'n benodol i Gymru hefyd sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos y rhoddir sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol (http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made)."*

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Ychwanegir y datganiad ychwanegol hwn at ddechrau'r paragraff yn dilyn y pwyntiau bwled ar dudalen 4 y ddogfen Gwybodaeth i Ganolfannau.

Fe'i hychwanegir er mwyn sicrhau bod canolfannau'n glir bod angen ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddyfarnu Graddau Asesu Canolfannau. Yn gyffredinol, bydd y wybodaeth a ddefnyddir i gyrraedd Graddau Asesu Canolfannau wedi'i chasglu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau arferol y canolfannau, a fydd yn eu tro yn cael eu paratoi'n gyffredinol er mwyn sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin yn deg a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen. Yn unol â hynny, bydd y wybodaeth yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd wedi'i ymgorffori ynddi. Yn ogystal, dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod rhywfaint o'r wybodaeth rydym yn gofyn iddynt ei hystyried wrth bennu Graddau Asesu Canolfannau, fel y cymorth y byddai myfyrwyr anabl yn ei gael mewn arholiadau, ynddi'i hun yn sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cynrychioli addasiadau rhesymol.

2. "*Cofnodi penderfyniadau*

Cynghorir canolfannau'n gryf i gadw cofnod ysgrifenedig, manwl o'r broses a ddefnyddir i gynhyrchu graddau asesu canolfannau a threfn restrol ar gyfer pob cymhwyster; a hefyd sut y mae'r broses honno wedi'i chymhwyso i'r penderfyniadau a wnaethpwyd mewn perthynas â graddau pob dysgwr. Fel y nodir uchod, mae nifer o ffactorau y gellid eu hystyried wrth lunio barn, a bydd y dull gweithredu priodol yn amrywio o ganolfan i ganolfan. Yn ogystal, gall fod ystyriaethau penodol i bob dysgwr y mae angen eu cofnodi, er enghraifft, unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â dysgwyr anabl a thebyg. Dylai canolfannau gofnodi'n benodol sut y cydymffurfiwyd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau.

Gellid galw ar ganolfannau i gyfiawnhau eu penderfyniadau, ac felly mae tystiolaeth briodol o wneud penderfyniadau yn hanfodol."

Fe'i hychwanegir er mwyn sicrhau y gall canolfannau ddangos sail gwneud penderfyniadau os oes angen yn dilyn cwyn, neu ymholiad gan CBAC neu randdeiliaid eraill.
Hoffem hefyd bwysleisio'r angen i ganolfannau gyflwyno data sy'n gywir. Fel y nodir yn ein Gwybodaeth i Ganolfannau, disgwyliwn y bydd prosesau trwyadl ar waith i wirio cywirdeb a gaiff ei ddogfennu ym mhrosesau canolfannau y cyfeirir atynt ym mhwynt 2 uchod. Bydd y croeswirio hwn am gywirdeb yn ymwneud â'r cofnodion terfynol a gyflwynir gan ganolfannau, yn ogystal â'r graddau a'r drefn restrol a gyflwynir ar gyfer pob cymhwyster. Mae hyn yn hanfodol oherwydd efallai na fydd system CBAC yn sylwi ar wallau (ac mewn rhai achosion ni fyddai unrhyw ffordd o

nodi gwallau). Mae'r prosesau cymeradwyo a nodir yn ein Gwybodaeth i Ganolfannau ar dudalen 8 wedi'u cynllunio i sicrhau cywirdeb data, yn ogystal â chadernid barn ac adlewyrchir hyn yn natganiad Pennaeth y Ganolfan ar dudalen 9 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth y Ganolfan gadarnhau bod y manylion a gyflwynwyd yn gywir, yn ogystal ag yn cynrychioli barn broffesiynol y staff yn onest ac yn deg.

Rydym wedi derbyn rhai ymholiadau ynghylch sut i gynhyrchu graddau asesu canolfannau. Rydym wedi rhoi rhywfaint o arweiniad yn ein dogfen Gwybodaeth i Ganolfannau ond os teimlwch fod angen rhagor o gyngor arnoch, efallai y bydd canllawiau Ofqual ar wrthrychedd wrth raddio a rhestru yn ddefnyddiol.

Yn ogystal â gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr yn cael y graddau tecaf posibl yr haf hwn, rydym hefyd yn edrych ar opsiynau i ddysgwyr sy'n dilyn cymwysterau yn haf 2021. Bydd cau ysgolion a cholegau wedi cael effaith enfawr ar eu dysgu, ac mae'n ddigon posib y bydd yn parhau am amser hir eto. Rydym yn ystyried yr opsiynau ar gyfer addasu cymwysterau mewn rhyw ffordd, gan ystyried yr amser gostyngol hwn mewn ysgolion, ac rydym yn gobeithio rhannu diweddariad lefel uchel gyda chi yn fuan. Yr wyf yn siŵr eich bod yn deall bod hon yn sefyllfa gymhleth ac na fydd un ateb sy'n addas i bawb. Mae'n debygol y bydd angen ystyried unrhyw addasiadau ar sail cymwysterau unigol.

Yngywir

Philip Blaker
Prif Weithredwr